# CEFNOGI LLWYDDIANT:

## CYMORTH I FUSNESAU AR ÔL 2020



Gorffennaf 2018

@FSB_Wales

**fsb.wales**

fsb

Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

# RHAGAIR

**Mae cymorth i fusnesau yng Nghymru yn newid.**

Gyda chyflwyniad Banc Datblygu Cymru a'r amharu anochel ar gyllid cymorth i fusnesau a fydd yn cael ei achosi gan Brexit, rydym mewn sefyllfa'n awr ble mae cyfle i ystyried ein blaenoriaethau a beth y mae angen i ddyfodol cymorth i fusnesau yng Nghymru fod.

Yn FSB Cymru, mae arnom eisiau gweld system cymorth i fusnesau ddynamig, buandroed sy'n grymuso cwmnïau ar draws Cymru i gwrdd â'u huchelgeisiau – beth bynnag y bônt.

Mae'r dirwedd newidiol hon yn dod ar adeg dyngedfennol hefyd; ar hyn o bryd mae i Gymru dirwedd gyfoethog o raglenni cymorth i fusnesau o ganlyniad i gyllid Ewropeaidd – a gyda'n hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd bellach lai na blwyddyn ymaith, 'dyw'r cyllid hwn ond wedi'i ddiogelu hyd at y flwyddyn 2020.

Un o'r galwadau allweddol yn yr adroddiad hwn yw bod rhaid grymuso Busnes Cymru ac, yn dyngedfennol, ei gyllido, i barhau ei weithgaredd ar ôl 2020. Er nad yw ein haelodau'n meddwl bod gwasanaeth Busnes Cymru yn berffaith, mae yn cynnig gwerth am arian ac mae rhai o swyddogaethau'r sefydliad – yn arbennig cysylltiad wyneb yn wyneb â chynghorwyr – wedi'u barnu'n arbennig o effeithiol.

Mae ein haelodau'n glir hefyd fod cyllid yr Undeb Ewropeaidd (UE) wedi cael effaith gadarnhaol ar eu cymunedau yn y gorffennol, ac mae mwyafrif y cwmnïau y gwnaethom arolwg ohonynt ar gyfer y gwaith hwn yn credu y dylai'r un lefel o gyllid barhau.

Fel rhan o'r sgwrs ynghylch faint o arian y mae Cymru yn ei dderbyn, rhaid inni ystyried hefyd sut y mae'r arian yn cael ei ddarparu. Yn FSB Cymru credwn y dylai Llywodraeth Cymru gadw rheolaeth ar gyllid rhanbarthol trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ôl Brexit.

Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith hwn ond yn gychwyn sgwrs rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau ar draws y wlad ynghylch sut y mae arnom eisiau i'n gwasanaethau cymorth i fusnesau edrych yn y dyfodol, a sut y gall y cyllid gael ei ddarparu i sicrhau bod y gwasanaethau cymorth hyn yn gallu cyflawni dros gwmnïau llai yng Nghymru.

**Ben Francis**
**Cadeirydd Polisi FSB Cymru**



# CYFLWYNIAD

“Mae hwn yn Gynllun i gyflenwi ffyniant i bawb trwy annog cyfranogiad i bawb.” *Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi 2017*.

Mae’r dirwedd cymorth i fusnesau yng Nghymru ar fin newid. Yn 2020, pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, fe allai un o’r prif ffrydiau cyllido sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ddiflannu. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru yn araf deg yn dechrau gweithredu gweledigaeth newydd ar gyfer economi Cymru trwy’i Chynllun Gweithredu ar yr Economi.[1] Mae’r ddau sbardun hwn yn golygu y bydd rhaid i sgwrs ar ddyfodol cymorth i fusnesau yng Nghymru ddigwydd, os ydym am fod â synnwyr clir o gyfeiriad ar ôl 2020. Rydym yn gobeithio cychwyn y sgwrs honno gyda’r papur polisi hwn, gan roi barn Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) ar flaenoriaethau at y dyfodol.

Yn wir, rydym yn gobeithio y bydd hyn yn adeiladu ar ein gwaith polisi blaenorol ar hunangyflogaeth yn ein hadroddiad *Mynd ar eich Pen eich Hun* a dod o hyd i *Canol Coll Cymru*, ein golwg ar gwmnïau cymedrol eu maint yng Nghymru, i roi darlun cyflawn o amgylchedd cymorth i fusnesau diwygiedig i Gymru.[2] Yn sylfaenol i hyn mae ein cred fod Cymru’n genedl entrepreneuraidd, yn genedl gyda’r asedau a’r galluoedd i greu a thyfu busnesau cynaliadwy, cadarn eu sail. Mae’n pwyso ar y syniad y bydd ffyniant Cymru yn y dyfodol yn cael ei ennill nid o’r tu allan, ond o adeiladu ar yr amrywiaeth o gwmnïau sydd gennym yn barod.

[1] Llywodraeth Cymru. 2018. Cynllun Gweithredu ar yr Economi [Ar-lein]. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-en.pdf

[2] FSB Cymru. 2017. Canol Coll Cymru [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/fsb_missing_middle_eng.pdf?sfvrsn=0

# CEFNDIR:

Yn 2012 fe wnaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficrofusnesau Llywodraeth Cymru nodi gweledigaeth rymus o 'siop un stop' ar gyfer cymorth i fusnesau yng Nghymru.[3] Gwireddwyd hyn pan grëwyd Busnes Cymru yn 2013. Fel yr ydym wedi tynnu sylw ato yn ein hadroddiad Canol Coll, mae Cymru wedi bod â hanes blaenorol da dros y degawd diwethaf gyda nifer cynyddol o ficrogwmnïau yn cael eu sefydlu, 80,000 rhwng 2003 a 2016.[4] Yn ddiamau mae'r cymorth i fusnesau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys trwy Busnes Cymru, wedi chwarae rhan yn hyn. Cawsom lai o lwyddiant wrth drawsnewid y busnesau hyn yn fusnesau bach ac yna'n fusnesau cymedrol eu maint.

Yn ogystal â'r cymorth gan Busnes Cymru, arweiniodd cyfres o adolygiadau mynediad at gyllid dan arweiniad yr Athro Dylan Jones-Evans at greu Banc Datblygu Cymru.[5] Cymerodd Banc Datblygu Cymru gynlluniau Cyllid Cymru a oedd mewn bod a chreu banc datblygu dan berchenogaeth gyhoeddus ar gyfer darparu cyllid i BBaChau. Mae rhan o'r drafodaeth sydd eto i'w chwblhau yma yn cynnwys pa un a fydd Banc Datblygu Cymru yn ymgyfuno'n ffurfiol â Busnes Cymru ac mae yna gymhlethdod pellach gyda'r posibilrwydd o gynnwys Gyrfa Cymru yn y gymysgedd.[6]

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfres o beirianweithiau grantiau a benthyciadau hefyd. Mae'r rhain yn amrywio o ran eu tryloywder a'u defnydd i BBaChau gyda'r diddorol ei enw 'cyllid busnes ad-daladwy sydd heb fod yn ad-daladwy' yn cymryd mantell y mwyaf afloyw efallai ond yn ffurfio rhan o gyfres o gyfundrefnau cyllid grant dan nawdd y dull 'sectorau'.[7] Cyhoeddodd FSB Cymru adroddiad gydag Ysgol Fusnes Caerdydd yn 2012 yn dangos bod BBaChau yn ei chael yn anodd dod o hyd i le o fewn y dull hwn ac yn colli'r cyfleoedd yr oedd y cyllid hwn yn eu cynnig i raddau helaeth.[8]

Y tu allan i'r prif ffynonellau cymorth hyn mae nifer o raglenni a gyllidir gan yr UE. Er enghraifft, mae Cenedl Hyblyg Chwarae Teg wedi darparu cymorth i gwmnïau wrth wella cynrychiolaeth y rhywiau yn y gweithle, bydd Cymru'n Gweithio yn helpu gyda chynlluniau cyflogadwyedd a'r prosiect Iaith Gwaith a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cael ei redeg trwy Fentrau Iaith i gyd yn ychwanegu at y dirwedd cymorth i fusnesau ehangach.

**Mae i Gymru dirwedd gyfoethog o raglenni cymorth i fusnesau ar hyn o bryd o ganlyniad i Gyllid Ewropeaidd.**

[3] Llywodraeth Cymru. 2012. Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficrofusnesau [Ar-lein]. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/det/publications/120118microbusinessen.pdf

[4] FSB Cymru. 2017. Canol Coll Cymru [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/fsb_missing_middle_eng.pdf?sfvrsn=0 P.8

[5] Jones-Evans, D. 2013. Access to Finance Review. [Ar-lein]. Ar gael ar: http://eprints.uwe.ac.uk/25608/1/access%20to%20finance%20stage%202%20review.pdf (cyrchwyd 11eg Gorffennaf 2018).

[6] Llywodraeth Cymru. 2017. Busnes Cymru & Gyrfa Cymru: Adroddiad Penderfyniad. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gov.wales/about/cabinet/decisions/2017/jul-sep/business/ks2235/?lang=en (cyrchwyd 11eg Gorffennaf. 2018).

[7] BBC Wales. 2017. Newidiodd cymorth busnes Llywodraeth Cymru ar ôl beirniadaeth [Ar-lein]. Ar gael ar: http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-39494843

[8] FSB Cymru. 2012. Small Business in Priority Sectors [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/Publications/policy/rpu/wales/images/cu-fsbw-small-businesses-in-priority-sectors.pdf?sfvrsn=1

# HERIAU NEWYDD

I ddeall y sail resymegol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth ar y cychwyn drafod yr heriau sy'n ysgogi'r sgwrs yma. Yn y bôn, cyfyngiadau cyllido ydynt sy'n debygol o godi o Brexit ac o ddiwygiadau cartref i bolisi economaidd.

### Cyllid a Chyllidebau'r UE

Daw cyllid Ewropeaidd mewn bob lliw a llun, trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Banc Buddsoddi Ewrop a nifer o ffrydiau cyllido llai ond arwyddocaol. Yn gyfan gwbl, cred Llywodraeth Cymru fod Cymru'n dderbynnydd net gyda thua £680m y flwyddyn o gyllid Ewropeaidd yn cefnogi rhaglenni Cymreig. O hyn, mae £295m bob blwyddyn yn llifo trwy raglenni'r gronfa strwythurol sy'n darparu'r rhan fwyaf o weithredoedd economaidd. Mae'n bwysig nodi yn y fan yma fod y cyllid hwn wedi ymblethu'n drwm yn rhaglenni Llywodraeth Cymru a bydd ymddatod y cyllid hwn yn cymryd amser.



**Mae Cyllid Ewropeaidd wedi ymblethu'n drwm yn rhaglenni datblygu economaidd Llywodraeth Cymru ac mae i gyfrif am tua £680m y flwyddyn**

Fel cymhariaeth, mae cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi a thrafnidiaeth yn tua £1 biliwn. O hyn, mae tua dwy ran o dair yn ymwneud â rhaglenni trafnidiaeth gyda thua 10 y cant yn canolbwyntio ar wasanaethau cymorth i fusnesau. Yn hynny o beth, mae cyllid Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) yn cyfateb yn fras i draean o'r gyllideb yma ac felly mae'n cael effaith arwyddocaol ar bolisi economaidd.[10]

**Yn fras mae £10m y flwyddyn o Gyllid Ewropeaidd yn mynd yn uniongyrchol tuag at gefnogi gwasanaeth cymorth Busnes Cymru**



[9] Llywodraeth Cymru. 2017. Diogelu Dyfodol Cymru Pontio o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop [Ar-lein]. Ar gael ar: https://beta.gov.wales/sites/default/files/2017-02/31139%20Securing%20Wales%C2%B9%20Future_Version%202_WEB.pdf

[10] Llywodraeth Cymru. 2017. Cynigion Cyllideb Ddrafft 2018/19. [Ar-lein]. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/caecd/publications/171024-detailed-narrative-en.pdf

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar brosiectau a gymeradwywyd ar gyfer cyllid, gan ganiatáu inni ymchwilio'n ddyfnach i'r cyllid ar gyfer cynlluniau cymorth i fusnesau. O hyn, gallwn weld y bydd rhaglen Busnes Cymru, dros y cyfnod o bum mlynedd (2015-20) yn costio £85,784,188 i gyd, a bydd £51,470,507 ohono'n dod o gronfeydd Ewropeaidd gyda'r gweddill yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru.[11] Felly mae hyn yn cyfateb yn fras i £10m y flwyddyn sy'n mynd tuag at gefnogi swyddogaeth Busnes Cymru.[12] Mae'n werth nodi yma fod hyn yn cynnwys y Rhaglen Cyflymu Twf yn ogystal â swyddogaeth graidd Busnes Cymru.

O ran Llywodraeth Cymru, mae'r gyllideb fwyaf diweddar (2018/19) yn awgrymu cyfraniad blynyddol o £8.8m ar y llinell wariant yn y gyllideb Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru. Mae hyn yn ychydig yn uwch na'r gost graidd y byddem yn ei disgwyl yng ngoleuni'r ffigurau uchod gan WEFO ond mae'n debygol ei fod yn cynnwys gwariant ar raglenni ychwanegol neu gysylltiedig.

Mae'n werth tynnu sylw yma, yng nghyd-destun cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi, fod hwn yn swm cymharol fach. Er enghraifft, mae i'r gyllideb 'sectorau' gyllid refeniw o £29m y flwyddyn a chyllid cyfalaf o £55m ar hyn o bryd. O fewn hyn ymddengys fod y pennawd Atebion Busnes, sy'n cynnwys oddeutu £20m o gyllid cyfalaf y flwyddyn, yn ganlyniad proses gynharach o ganoli cyllid grant Llywodraeth Cymru i gwmnïau trwy'r Atebion Busnes Hyblyg.[13] Mae cymorth uniongyrchol i BBaChau trwy Busnes Cymru yn elfen gymharol fach felly o gyllid datblygu economaidd presennol Llywodraeth Cymru.

**Elfen fach o gyllideb economi Llywodraeth Cymru yw cymorth busnes uniongyrchol trwy Busnes Cymru ar hyn o bryd, o gymharu'n arbennig â chyllidebau sectorau ac 'atebion busnes'.**

Mae ein gwaith yn y gorffennol wedi amlygu sut y mae'r rhan fwyaf o gwmnïau bach wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i gymorth trwy'r agenda sectorau ac o ganlyniad ei bod yn debygol bod goruchafiaeth ymhlith grantiau i gwmnïau mwy.[14]

Yn wir, ymddengys fod y gyllideb sectorau, i raddau helaeth, yn gyfres o beirianweithiau cyllid grant, fel yr amlygwyd yn adroddiad diweddar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a awgrymodd, o'r £166m a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 2012 a 2015 fod 93 y cant (neu £154m) ohono wedi'i ddosbarthu fel arian sydd heb fod ad-daladwy.[15] Mae hyn yn arwyddocaol gan fod y rheolau yn ymwneud â RBF yn awgrymu mai dim ond cwmnïau a oedd yn 'symudol' oedd heb fod â disgwyl iddynt ad-dalu (yn wir rhoddodd hyn yr enghraifft o fewnfuddsoddi yn groyw) gan olygu bod BBaChau lleol i bob pwrpas yn cael eu prisio'n wahanol i fewnfuddsoddwyr mewn perthynas â'r cyllid hwn.[16]



**Mae BBaChau lleol yn llai tebygol o fod wedi elwa ar gyllid grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru**

[11] WWEFO. 2018. Prosiectau wedi'u Cymeradwyo a Syniadau Mewn Datblygiad. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/approved-projects/?lang=en

[12] Ibid http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/approved-projects/?lang=en

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru. 2007. Atebion i Gwestiynau Nas Cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn [Ar-lein]. Ar gael ar: http://www.assembly.wales/Record%20of%20Proceedings%20Documents/Answers%20to%20Questions%20not%20reached%20in%20Plenary%20(PDF,%20108kb)-25092007-59710/oaq20070925qv-Cymraeg.pdf

[14] FSB Cymru. 2012. Small Business in Priority Sectors [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/Publications/policy/rpu/wales/images/cu-fsbw-small-businesses-in-priority-sectors.pdf?sfvrsn=1

[15] Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, CCC. 2017. Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd [Ar-lein]. Ar gael ar: http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10933/cr-ld10933-e.pdf

[16] Llywodraeth Cymru. 2013. Cyllid Busnes Ad-daladwy [Ar-lein]. Ar gael ar: https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/documents/WG%20Business%20Funding%20Programmes%20March%202013/WG16912_Repayable%20Business%20Finance.pdf

Yn y pen draw, mae hyn yn dangos dau beth inni. Yn gyntaf, y bydd tynnu cyllid Ewropeaidd yn ei ôl yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllidebau polisi economaidd Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn golygu y gallai llai o arian fod ar gael i gefnogi polisi economaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos hefyd fod dewisiadau i'w gwneud o fewn cyllidebau Llywodraeth Cymru rhwng y mathau o gwmnïau y mae ar Lywodraeth Cymru eisiau eu cefnogi a'u tyfu. Mae hyn yn ystyriaeth allweddol i'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, os yw am ganolbwyntio ar dyfu economi cartref Cymru.

**Mae gan Lywodraeth Cymru ddewis i'w wneud o ran cyllido yn y dyfodol ynglŷn â'r mathau o gwmnïau y mae arni eisiau eu cefnogi, mewnfuddsoddi symudadwy neu gwmnïau lleol, cadarn eu sail.**

## Cynllun Gweithredu ar yr Economi

Tua diwedd 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi. Roedd y diweddariad strategol hirddisgwyliedig hwn yn nodi nifer o newidiadau i gymorth i fusnesau. Er enghraifft, mae'r sectorau (a grybwyllwyd uchod) i'w dileu gyda sectorau sylfaenol yn cymryd eu lle a galwadau i weithredu, megis deallusrwydd artiffisial ac awtomatiaeth. Ar ben hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn symud ei hymyriadau tuag at ôl troed rhanbarthol gyda thri rhanbarth economaidd fel y locws ar gyfer gweithgaredd. Yn olaf, byddir yn dod â ffrydiau cyllido at ei gilydd ar gyfer prosiectau sy'n seiliedig ar grantiau a benthyciadau dan faner un Gronfa Dyfodol yr Economi.

Mae hyn yn codi cwestiynau arwyddocaol o ran y drafodaeth ynghylch cymorth i fusnesau ar ôl 2020. Yn wir, mewn sesiwn craffu diweddar fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ken Skates nodi "*ar hyn o bryd, mae'r meini prawf ar gyfer tynnu cymorth Llywodraeth i lawr yn pwyso i raddau helaeth ar y gost y swydd a chymhareb.*"[17] Mae gan raglen gymorth bresennol Busnes Cymru dargedau ac uchelgeisiau swyddi pendant, fel sydd gan gynlluniau eraill, megis y Cynllun Cyllid Busnes (Cyllid Busnes Ad-daladwy gynt) a gweithgaredd Banc Datblygu Cymru.

**Mae cymorth blaenorol a ddarparwyd ar gyfer cwmnïau yng Nghymru wedi'i seilio i raddau helaeth ar dargedau creu swyddi.**

Mewn cyferbyniad, mae uchelgeisiau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn symud heibio i swyddi fel y prif nod tuag at amrediad ehangach o faterion, megis ansawdd swyddi, cynhyrchiant a mynd i'r afael â heriau economaidd o bwys megis datgarboneiddio ac awtomatiaeth. Bydd hyn yn gofyn am wahanol fath o amgylchedd cymorth i fusnesau ar draws pob math a lefel o gymorth, un na fydd efallai'n cael ei ddal yn rhwydd o ran niferoedd swyddi fel y bu'n wir yn y gorffennol.

Y prif beirianwaith ar gyfer darparu hyn yw'r Contract Economaidd. Mae'r contract yn newid y drafodaeth flaenorol rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau oedd yn canolbwyntio ar swyddi am ddull gweithredu 'rhywbeth am rywbeth'. Mae hyn yn golygu y bydd cwmnïau ond yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru os gallant brofi y gallant gynnal nodau ehangach, megis datblygu cadwyni cyflenwi lleol, datgarboneiddio, gwaith teg a chynnydd mewn cynhyrchiant. Ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i gyllid grant (trwy'r Cynllun Cyllid Busnes) ac mae elfen o gymesuredd wedi'i ymgorffori fel bod gan gwmnïau bach ddisgwyliadau cymesur.

**Mae'r Contract Economaidd yn symud cymorth llywodraeth heibio i dargedau creu swyddi syml tuag at sgwrs economaidd ehangach.**

Mae cael gwared ar ffiniau Ewropeaidd yn agor y posibiliadau daearyddol hefyd. Yn y gorffennol, mae cymorth wedi'i roi ar sail Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn bennaf i gyd-fynd â meini prawf cyllido'r UE. Ar ôl 2020 bydd cyfleoedd i addasu'r amgylchedd cymorth i fusnesau i gyd-fynd â ffiniau economaidd cyfoes, yn cynnwys o bosibl awdurdodau lleol a'r rhanbarthau economaidd sy'n dod i'r amlwg.

[17] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, CCC. 2018. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi—Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth [Ar-lein]. Ar gael ar: http://record.assembly.wales/Committee/4570

**Ni fydd ffiniau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer cyllid yn rhwystr i gyflawni prosiectau bellach.**

### Cronfa Ffyniant Gyffredin

Mae ailwladoli polisi rhanbarthol yn dod â chymhlethdodau pellach gydag ef. Fel yr ydym wedi'i weld uchod, mae Cymru'n dderbynnydd net swm sylweddol o gyllid yr UE ac yn aml mae i hyn effeithiau buddiol ar fusnes ar draws Cymru. Er enghraifft, yn ein dogfen ddiweddar Gwneud i Brexit Weithio i Gymru fe ddywedodd ein haelodau wrthym yn glir (78 y cant o'r ymatebwyr) eu bod yn meddwl y dylai Cymru barhau i dderbyn yr un faint o gyllid ag yr oedd trwy'r Undeb Ewropeaidd.[18]

Ar ben hynny, pan ofynnwyd iddynt a oedd cyllid wedi bod yn fuddiol i'w cymuned leol dywedodd y mwyafrif llethol ei fod gyda dim ond nifer fach yn dweud na fu. Er gwaethaf hyn, credwn y gellir gwario cyllid yn well yn y dyfodol i wella lles economaidd Cymru.



**Mae cyllid yr UE wedi cael effaith gadarnhaol yn y gorffennol ac roedd mwyafrif y cwmnïau y gwnaethom adolygiad ohonynt yn meddwl y dylai'r un lefel o gyllid barhau**

Yn ogystal â faint o arian y mae Cymru'n ei dderbyn, mae'n rhaid inni hefyd ystyried y ffordd y mae arian yn cael ei ddarparu. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr arian yn uniongyrchol o Frwsel, a chaiff ei wario wedyn trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Mae hyn yn rhoi rheolaeth sylweddol dros y cyllid i Lywodraeth Cymru, serch o fewn y paramedrau a osodir gan yr Undeb Ewropeaidd. Yn fwy diweddar, awgrymodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'n cyfnewid cyllid rhanbarthol am Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Yn dyngedfennol, 'doedd hyn ddim yn rhoi manylion ynghylch natur y gronfa, pa un a fyddai'i blaenoriaethau'n cael eu gosod gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru, pa un a fyddai ei meini prawf cymhwyso'n aros yn gyson a pha un a fyddai yr un faint o gyllid.

Wrth ragweld y Gronfa Ffyniant Gyffredin, fe wnaeth yr FSB ymchwil ledled y DU i Brexit yn diweddu mewn adroddiad ar gyllid yn dwyn y teitl Reformed Business Funding: What Small Firms Want from Brexit.[19] Yn yr adroddiad mae'r FSB yn galw am i'r gwledydd datganoledig gadw'r pwerau i osod eu dyraniadau a'u fframweithiau eu hunain ar gyfer sut y dylai cyllid gael ei flaenoriaethu, sy'n cymryd anghenion economaidd lleol i ystyriaeth.

Yn sylfaenol mae a wnelo polisi rhanbarthol â chydbwyso canlyniadau economaidd. Gan fod datblygu economaidd yn swyddogaeth ddatganoledig, credwn mai Llywodraeth Cymru sydd yn y lle gorau i ddarparu unrhyw gyllid newydd trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Byddai hyn yn sicrhau bod y cyllid yn alinio â strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru, y Cynllun Gweithredu ar yr



**Dylai Llywodraeth Cymru gadw rheolaeth ar gyllid rhanbarthol trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ôl Brexit**

[18] FSB Cymru. 2017. Gwneud i Brexit Weithio i Gymru [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/fsb_making_brexit_work_wales_eng.pdf?sfvrsn=0

[19] FSB. 2017. Reformed Business Funding: What Small Firms Want from Brexit [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/reformed-business-funding.pdf

Economi, ac y gellir ei baru â'r rhanbarthau economaidd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru trwy'r Prif Swyddogion Rhanbarthol. Dylai gael ei neilltuo hefyd ar gyfer datblygu economaidd ac ni ddylai ffurfio rhan o gyllideb ehangach Llywodraeth Cymru.

### Cymorth i Fusnesau: Gwerth am Arian?

Dylai unrhyw asesiad o'r blaenoriaethau ar ôl 2020 gynnwys dadansoddiad o werth am arian. Mae hyn yn amlwg yn anodd ei fesur ac yn dibynnu'n drwm ar yr amcanion sydd wrth wraidd unrhyw gynllun. Fel yr ydym wedi'i amlygu uchod, gallwn ragweld amcanion yn y dyfodol sy'n symud heibio i niferoedd swyddi i edrych ar set fwy coeth o ddangosyddion. Wedi dweud hynny, gallwn ddechrau defnyddio cost y swydd i amlygu gwerth o fewn y gyllideb economaidd.

Mae **Tabl 1** pyn rhoi archwiliad byr o'r costau a gafwyd trwy greu swyddi yng Nghymru ar gyfer amrywiol brosiectau. Mae'n bwysig nodi yn y fan yma mai ffigurau amcangyfrifedig yw'r rhain sydd wedi'u seilio ar yr wybodaeth sydd ar gael. 'Dyw Llywodraeth Cymru ddim bob amser yn cyhoeddi'r wybodaeth berthnasol i ddarparu ar gyfer dadansoddiad mwy neu fwy manwl, yn arbennig o ran grantiau i gwmnïau unigol. Am y rheswm hwnnw, dylid cymryd y ffigurau hyn fel rhai dangosol yn unig.

## TABL 1

| DADANSODDIAD COST Y SWYDD | Cyllideb | Swyddi | Cost y swydd | Nodiadau | Rhagdybiaethau |
|---|---|---|---|---|---|
| **BUSINESS CYMRU** | £85,784,000.00 | 28,300 | £3,031.24 | Cyllid ar gyfer darparu gwasanaeth cynghori. | Ffigurau'n ymwneud â chyfnod cyfan y prosiect. |
| **BANC DATBLYGU CYMRU** | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Bach £11,512<br>Cymedrol £8,954<br>Mawr £6,396 | 93% o brosiectau wedi derbyn cyllid grant , 75% yn ad-daladwy rhwng 2012 – 15. Grantiau'n seiliedig ar gwmnïau 'symudol'. | Yn seiliedig ar y cyflog canolrifol yng Nghymru (£25,584) yn 2016 yn erbyn meini prawf canran buddsoddiad mewn ardal haen un a gynorthwyir. |
| **BANC DATBLYGU CYMRU** | £80,000,000.00 | 5,500 | £14,545.45 (£2,909) | Benthyciadau neu fuddsoddiad ecwiti i BBaChau sy'n ad-daladwy. | Yn seiliedig ar y ffigur buddsoddiad blynyddol amcanol a swyddi a grëir/ddiogelir ar gyfer 2022. |
| **ARDALOEDD MENTER** | £225,867,359.00 | 1,0706 | £21,097.27 | Cymysgedd o grantiau, buddsoddiad mewn seilwaith ac eiddo a chymorth i fusnesau. | Ffigurau'n ymwneud â chyfnod cyfan y prosiect. |
| **ASTON MARTIN** | £5,800,000.00 | 750 | £7,773.33 | Manylion heb eu cyhoeddi, RBF/BFS tybiedig. | |
| **ALDI** | £4,500,000.00 | 422 | £10,663.51 | Manylion heb eu cyhoeddi, RBF/BFS tybiedig. | |
| **TUI** | £525,000.00 | 175 | £3,000.00 | Cynllun Cyllid Busnes. | |
| **CAPGEMINI** | £1,400,000.00 | 100 | £14,000.00 | Cynllun CylliBusnes. | |
| **DELOITTE** | £3,500,000.00 | 700 | £5,000.00 | Cyllid Busnes Ad-daladwy (wedi'i ailenwi'n Gynllun Cyllid Busnes yn awr). | |

[20]

[20] Mae'r cyfeirnodau ar gyfer tablau yn yr atodiad.


Trwy'r dadansoddiad hwn, gallwn ddechrau gwneud nifer o ragdybiaethau. Yn gyntaf, mae'n amlwg fod y gwariant ar gyfer Busnes Cymru yn cynnig gwerth am arian os mai creu swyddi yw'r nod. Am £3,031.24 y swydd mae Busnes Cymru yn cynnig enillion sylweddol am fuddsoddiad cymharol fach. Mae'n werth nodi yma hefyd fod y rhain yn swyddi a grëir mewn cymunedau ar draws Cymru gydag amrywiaeth eang o gwmnïau. O'n persbectif ni, mae'r amrywiaeth yma'n gryfder yn gymaint â bod y swyddi hyn â'u gwreiddiau yng Nghymru, yn annhebygol o fod yn symudol ac yn sicrhau gwariant pellach yn eu hardaloedd.



**Mae gwariant ar Busnes Cymru yn cyflenwi enillion da i'r llywodraeth am gost o £3,031 y swydd**

Mewn perthynas â'r Banc Datblygu, mae'r darlun yn llai clir. Er bod y ffigur yn ymddangos yn uchel mae'n werth tynnu sylw at y ffaith fod y Banc Datblygu yn darparu benthyciadau nid grantiau ac felly mae yna siawns cryf iawn y bydd yr arian hwn yn cael ei ad-dalu, ac yn achos buddsoddiadau ecwiti mae'r Banc Datblygu mewn sefyllfa i gyflenwi enillion i'r pwrs cyhoeddus ar fuddsoddiadau cadarn.

Yn seiliedig ar Adroddiad Blynyddol Cyllid Cymru 2017, yn 2016 roedd tua £30m yn cael ei ddal fel darpariaeth colledion benthyciadau o gyfanswm o £145m mewn benthyciadau derbyniadwy.[21] Er nad yw hyn yn ymwneud â buddsoddiad ecwiti, mae hyn yn rhagdybio cyfradd diffygdalu o hyd at 20 y cant, sydd i'w ddisgwyl gyda banc cyhoeddus sy'n darparu cyllid llenwi bwlch. Wedi'i seilio ar hynny, gallwn ragdybio fel uchafswm mai dim ond 20 y cant o'r cyllid fydd yn mynd heb ei dalu, gan roi inni ffigur swyddi mwy realistig o £2,909, sydd eto'n gymaradwy â Busnes Cymru. Fel oedd yn wir gyda Busnes Cymru, mae'r Banc Datblygu yn benthyca i BBaChau ac felly mae'n debygol o fod yn targedu sbectrwm eang o gwmnïau ar draws Cymru.



**Mae Banc Datblygu Cymru yn darparu gwerth da am arian hefyd gyda chost amcangyfrifedig y swydd o £2,909**

Mewn perthynas ag Ardaloedd Menter, gallwn weld bod cost creu swyddi yn uchel, sef mwy na £21,000. Fe all hyn fod oherwydd y ffaith fod ymyriadau'n cael eu darparu mewn nifer o ardaloedd megis trwy gymorth i fusnesau, buddsoddi mewn eiddo, gostyngiad treth a seilwaith.

[21] Development Bank of Wales. 2017. Annual Report. [Online]. Available at: https://developmentbank.wales/sites/default/files/2017-09/FW%20Annual%20Repor2016-2017.pdf P.69

**Mae Ardaloedd Menter yn costio dros £21,000 y swydd sy'n 7 gwaith cymaint â Busnes Cymru a'r Banc Datblygu.**

Yn olaf, ar gyfer yr ymarferiad hwn rydym wedi llunio ffigurau crybwylledig o fuddsoddiad a wnaed at brosiectau mewnfuddsoddiad unigol. Ni chaiff manylion y buddsoddiadau hyn eu gwneud yn gyhoeddus fel arfer, felly mae'n anodd canfod eu gwerth am arian. Dylai'r asesiad hwn gael ei gymryd fel un dangosol yn unig felly.

Mae cymorth busnes i fewnfuddsoddwyr yn cael ei wneud fel arfer trwy'r Cynllun Cyllid Busnes, a oedd yn cael ei adnabod o'r blaen fel Cyllid Busnes Ad-daladwy. Mae'r enw'n bwysig yma, oherwydd er bod ad-daladwy yn y teitl, fe ddatgelwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod 93 y cant o'r ymyriadau a wnaed dan y gronfa hon, mewn gwirionedd, heb fod yn ad-daladwy.[22] Mae cwestiynau teg i'w gofyn ynghylch pa un a yw'r gyfran yma'n gynaliadwy o ystyried cyfyngiadau cyllido posibl yn y dyfodol. Mae'r meini prawf ar gyfer pa un a yw grant heb fod yn ad-daladwy neu'n ad-daladwy a wnelo â pha un a yw busnes yn symudol. Hyd y gwyddom, nid yw hyn wedi'i ddiffinio'n gyhoeddus ac felly fe all fod cryn dipyn o ddisgresiwn dan sylw.
Yn ymarferol, mae hynny'n awgrymu y bydd busnesau lleol sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru, er eu bod mewn egwyddor yn gymwys ar gyfer y cyllid, yn ei dderbyn ar waeth telerau yn ymarferol na mewnfuddsoddwyr 'symudol'.

Yn seiliedig ar y ffigurau a ddarparwyd trwy ddatganiadau i'r wasg Llywodraeth Cymru, gallwn weld bod gwerth am arian yn amrywio'n anhygoel, gyda buddsoddiadau yn TUI yn gymaradwy â Busnes Cymru tra bo'r ymyriad yn Capgemini tua phedair gwaith a hanner yn fwy costus.
Mewn cyferbyniad â chyllid y Banc Datblygu a Busnes Cymru, caiff yr ymyriadau hyn eu rhoi mewn cwmnïau unigol sy'n cael eu hystyried yn 'symudol' ac felly maent yn dueddol i symud y tu allan i Gymru os nad yw'r amgylchedd cyllido yn ffafriol mwyach.

**Mae cyllid grant uniongyrchol i gwmnïau mwy yn amrywiol o ran gwerth am arian gyda'r enghreifftiau a archwiliwyd yma yn amrywio o gost y swydd tebyg i Busnes Cymru i dros bedair gwaith a hanner yn fwy costus.**

Ein nod yma yw peidio â dweud na ddylai'r mathau hyn o ymyriadau ddigwydd, yn amlwg mae hi'n bwysig o ran datblygu economaidd fod Cymru'n gallu denu cwmnïau angori mawr sy'n ychwanegu at ein capasiti economaidd. Yn wir, fel y gwnaethom ei fynegi yn ein hadroddiad canol coll, dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddiadau y gellir dangos bod iddynt gyfleoedd cadwyn cyflenwi arwyddocaol a fyddai'n helpu i angori'r gweithgaredd. Yn hytrach, ein bwriad yma yw dangos os oes yna wasgfa ar gyllid yn codi o Brexit, fod blaenoriaethu cymorth busnes i BBaChau yn cynnig gwell enillion ar fuddsoddiad mewn set ehangach o gyd-destunau.

22 Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, CCC. 2017. Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd [Ar-lein]. Ar gael ar: http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10933/cr-ld10933-e.pdf

**Er gwaethaf gwasgfa bosibl ar gyllid, mae gan Lywodraeth Cymru y gallu i ddewis y mathau o fusnesau y mae'n eu cefnogi. Ar hyn o bryd, cwmnïau mwy yw buddiolwyr grantiau uniongyrchol.**

### Beth y mae ar gwmnïau ei eisiau gan gymorth i fusnesau?

Er mwyn hysbysu blaenoriaethau gwario yn y dyfodol o ran cymorth i fusnesau, fe ymgymerodd FSB Cymru ag arolwg byr o farn yr aelodau. Derbyniodd yr arolwg barn tua 140 o ymatebion ac mae rhai o'r sylwadau a gynhwyswyd wedi'u defnyddio i amlygu blaenoriaethau ar gyfer argymhellion polisi.

Derbyniodd yr arolwg barn raniad gweddol wastad o gwmnïau o bob un o bedwar rhanbarth Cymru, ac eithrio canolbarth Cymru a oedd yn ffurfio tua 12 y cant o'r sampl. Mae hyn i'w ddisgwyl, gyda nifer y cwmnïau yng nghanolbarth Cymru yn sylweddol is nag mewn mannau eraill yng Nghymru (gweler ein hadroddiad ar y Canol Coll am fwy ar hyn). Ar ben hynny, roedd chwarter ein hymatebwyr yn hunangyflogedig, roedd y mwyafrif (58 y cant) yn ficrofusnesau gyda thua 17 y cant o'r ymatebwyr yn y categorïau bach a chymedrol eu maint. .

O ystyried maint y sampl, dylai'r data hwn gael ei drin fel data dangosol yn unig a ble mae'n bosibl mae data ansoddol wedi'i ddefnyddio i roi mwy o fanylion.

### Dyheadau Twf

## GRAFF 1

## Beth yw'r dyheadau twf far gyfer eich busnes dros y 12 mis nesaf?

| | |
|---|---|
| Tyfu'n gyflym o ran trosiant/gwerthiannau (mwy nag 20%) | 16% |
| Tyfu'n gymedrol (hyd at 20% y flwyddyn) | 43% |
| Aros tua'r un maint | 31% |
| Lleihau/sefydlogi'r busnes | 7% |
| Cau'r busnes | 2% |

Fe wnaethom ofyn i'n haelodau beth oedd eu dyheadau twf am y 12 mis nesaf. Roedd gan y mwyafrif ddyheadau twf gyda thua 15 y cant yn gobeithio tyfu'n gyflym gyda 43 y cant arall yn tyfu'n gymedrol. Yn arwyddocaol, roedd traean o'r ymatebion yn awgrymu y byddent yn hoffi aros yr un maint, gan amlygu'r angen i gymorth i fusnesau beidio â chanolbwyntio ar ddyheadau twf yn unig. Yn peri mwy o bryder, roedd tua 7 y cant o gwmnïau yn sefydlogi neu'n lleihau o ran maint gyda 2 y cant arall yn gobeithio cau'r busnes.

**Mae gan y mwyafrif o gwmnïau ddyheadau twf cryf, ond mae tua thraean yn dymuno aros yr un maint. Mae angen i gymorth i fusnesau ddarparu ar gyfer y ddwy gynulleidfa yma os yw am wella'r stoc cyffredinol o fusnesau yng Nghymru.**

## GRAFF 2

# A ydych wedi ceisio cymorth busnes yn y ddwy 2 flynedd ddiwethaf?


| | |
|---|---|
| Do | 30% |
| Naddo | 70% |

Mae tystiolaeth o'n harolwg barn yn awgrymu bod tua 30 y cant o fusnesau wedi ceisio cymorth a chyngor busnes yn weithredol yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

### Profiadau o Busnes Cymru

Fel y nodwyd o'r blaen, prif ddarparwr cymorth busnes cyhoeddus yng Nghymru yw Busnes Cymru. Roedd arnom eisiau profi'r profiadau o ddarpariaeth bresennol Busnes Cymru gan y byddai hyn yn cynnig dull cadarn o drafod pa welliannau y gellid eu gwneud ar ôl 2020.

## GRAFF 3





Un o'r prif resymau y crëwyd Busnes Cymru oedd rhesymoli cymorth i fusnesau dan un enw brand. Byddai hyn, fe ddadleuid, yn arwain at well ymwybyddiaeth o frand ac felly mwy o ymwybyddiaeth o ddarparwr y cymorth i fusnesau gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd dros 70 y cant o'r ymatebwyr i'n harolwg barn eu bod yn ymwybodol o Busnes Cymru fel gwasanaeth. I raddau helaeth mae hyn yn cadarnhau'r sail resymegol dros greu'r brand ac mae'n bleser gweld lefelau mor uchel o adnabyddiaeth. Er gwaethaf hyn, roedd tua 30 y cant o'r aelodau yn dal heb fod yn ymwybodol, sy'n dangos meysydd ar gyfer gwelliant sy'n aros.

**Mae brand Busnes Cymru yn adnabyddus i lawer o gwmnïau a dylai gael ei ddiogelu fel siop un stop mewn unrhyw drefniadau newydd ar ôl 2020.**

O'r rheini a oedd yn ymwybodol o Busnes Cymru roedd tua 40 y cant wedi defnyddio gwasanaeth Busnes Cymru yn weithredol i gefnogi'u busnes. Mae hyn yn awgrymu bod lefel y cyfalafu o ymwybyddiaeth brand i dderbyniad gwasanaeth yn weddol uchel. Mae hyn yn cyfateb yn weddol gryf hefyd i nifer y cwmnïau yn ceisio cymorth busnes a amlygwyd yn gynharach.

## GRAFF 4




O'r rheini sydd wedi defnyddio gwasanaeth Busnes Cymru, gallwn weld bod y lefelau boddhad yn gadarnhaol at ei gilydd. Roedd tua 60 y cant o'r rheini a oedd wedi defnyddio Busnes Cymru wedi cael y profiad naill ai'n foddhaol neu'n foddhaol iawn, gyda 10 y cant arall yn teimlo'n niwtral am y profiad. Er gwaethaf hyn, roedd lefelau anfodlonrwydd yn dal i fod dros chwarter o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiwn.

Mae rhai o'r sylwadau cefnogol yn eglurhaol yn y cyswllt hwn. Er enghraifft, ar yr ochr gadarnhaol gwnaed y sylwadau canlynol:

*"Hyd yn hyn mae'r bobl yr wyf wedi'u cyfarfod o Busnes Cymru wedi bod o gymorth. Nid yw fy musnes yn gwneud mor dda ag y dylai a bu llawer o sialensiau y flwyddyn a hanner ddiwethaf yma. Hyd yma, bu'r help yn fwy seicolegol o'i gyferbynnu ag ariannol gan fod angen imi ddatblygu cynllun busnes newydd a sefydlogi dyled y busnes. Roedd y wraig a ddaeth i'm helpu i wneud y busnes yn fwy effeithlon yn gyfrifydd wedi ymddeol ac roedd hi'n gallu fy nghyflenwi â chyngor cadarn, y bu imi ei gymryd a gweithredu arno."*

*"Cymorth gwych gan holl aelodau'r tîm. Proffesiynol a deallgar iawn. Wedi fy helpu i ddeall llawer ynghylch sut mae busnesau'n gweithio a datblygu."*

*"Fe'i cefais yn anodd defnyddio rhai o wasanaethau Busnes Cymru ond rwyf wedi dod yn aelod o'r Rhaglen Cyflymu Twf sydd wedi helpu gyda rhai pethau cyfreithiol ac ymgyrch cyllido sydd ar ddod. Fe all fod yn ychydig yn araf yn symud gan fod angen ichi ymochri â chyfleoedd."*

Yn amlwg yma roedd personoliaeth y cynghorwyr wedi'i weld yn allweddol wrth sefydlu perthynas â'r busnesau dan sylw, yn arbennig o ran lefel y ddealltwriaeth o faterion busnes a'u hymarweddiad proffesiynol. Serch hynny, mae'r sylw olaf yn awgrymu y daeth pethau'n fwy buddiol wrth i'r ymatebwr symud tuag at gategorïau uwch o gymorth (h.y. y Rhaglen Cyflymu Twf).

Ar yr ochr negyddol, cofnodwyd y materion canlynol:

*"Mae'r gwasanaeth cynghori yn ddefnyddiol wrth gyfeirio'r ffordd i fusnesau bach. Mae'n ymddangos nad yw'n cynnig unrhyw help wrth wneud i rai o'r newidiadau ddigwydd, yn arbennig ym maes TG ble mae'n dealltwriaeth ein hunain yn brin."*

*"Ychydig o help gwirioneddol. Araf iawn, biwrocrataidd iawn."*

*"Nid oes gan rai o'r cynghorwyr agweddau da iawn wrth ymdrin â merched ac mae rhai ohonynt yn defnyddio'r gwasanaeth i gyfeirio cleientiaid tuag at eu practisiau preifat."*

Eto rydym yn gweld bod rôl y cynghorwr yn allweddol i'r profiad a gafwyd. Mae'r trydydd sylw yn peri pryder arbennig, gan awgrymu bod problemau ynglŷn â rhywedd ac ansawdd y gwasanaeth. Roedd nifer o'r sylwadau eraill yn teimlo bod lefel y wybodaeth ynghylch materion busnes yn wael ac y gallai'r broses fod yn fiwrocrataidd.

Rhwng yr amrywiaeth yma o sylwadau bu inni dderbyn nifer a oedd yn teimlo bod y cyngor yn dda at ei gilydd ond bod rhy ychydig yn cael ei wneud i helpu i roi'r cyngor ar waith.

**Ar y cyfan mae Busnes Cymru yn darparu gwasanaeth da i fusnesau ar draws Cymru.**


**Er gwaethaf hyn, mae'r ansawdd yn gallu bod yn anghyson ac nid yw nifer o gwmnïau'n cael y gwasanaeth yn foddhaol. Yn arbennig, nodwyd problemau ynglŷn â symud o gyngor tuag at newidiadau ymarferol.**

**Roedd ansawdd y cynghorwyr yn allweddol i ddeall profiadau da a phrofiadau drwg ein haelodau. Mae hyn yn awgrymu y gellir gwneud mwy i ddatblygu'r gwasanaeth, megis ymwybyddiaeth ehangach o faterion busnes, sgiliau rhyngbersonol ac ymwybyddiaeth o ymdrin â merched a grwpiau lleiafrifol ac ethnig.**

### Banc Datblygu Cymru

Y chwaraewr allweddol arall o ran cymorth i fusnesau yw Banc Datblygu Cymru, sydd yn defnyddio'r enw brand Banc ar hyn o bryd. Mae Banc wedi ymgodi o Cyllid Cymru ac mae'n darparu benthyciadau a chyllid ecwiti i BBaChau ar draws Cymru, gan ddefnyddio cyllid Ewropeaidd ymhlith pethau eraill. Roedd y cwestiwn cyntaf a ofynnodd ein harolwg barn a wnelo â nifer y cwmnïau sydd ag angen cyllid allanol. Dangosodd ein harolwg fod chwarter cwmnïau wedi bod ag angen cyllid allanol yn y 2 flynedd ddiwethaf.

## GRAFF 5




O ran ymwybyddiaeth, yn naturiol roedd llai o ymwybyddiaeth ymhlith cwmnïau nag sy'n wir ar gyfer Busnes Cymru. Dim ond 40 y cant o'r rheini yn yr arolwg barn oedd yn ymwybodol o'r Banc Datblygu. Fe allai fod dau reswm am hyn. Yn gyntaf, newidiwyd y brand yn ddiweddar iawn o Cyllid Cymru i Banc Datblygu Cymru. Yn ail, mae llai o fusnesau'n ceisio a chael cyllid allanol o gymharu â chymorth busnes. Rydym wedi geirio'r cwestiwn hefyd i beidio â chynnwys unrhyw gyfeiriad at Cyllid Cymru, a oedd wedi'i gynnwys mewn cwestiynau diweddarach.

**Mae ymwybyddiaeth o'r Banc Datblygu newydd a'i frand Banc yn gymharol gyfyngedig ar hyn o bryd. Dylai cynnal cysondeb brand a'i hyrwyddo yn y dyfodol fod yn flaenoriaeth.**

O'r rheini a oedd wedi clywed am Banc roedd tua 15 y cant wedi defnyddio'u gwasanaethau mewn gwirionedd. Mae'n werth nodi yn y fan yma fod y gyfradd ymateb yn mynd yn rhy isel i lunio casgliadau gweithredol, er ar y cyfan roedd tri chwarter y rheini'n ymateb yn fodlon mewn rhyw ffurf.

O'r sylwadau a adawyd gan ymatebwyr, daeth thema'n amlwg ynglŷn â phris benthyciadau:

*"Cyfraddau llog uchel iawn"*

*"Yn gostus iawn pan gaiff yr holl amodau sydd raid ichi eu cwrdd eu cymryd i ystyriaeth. Ond yn effeithiol a chefnogol fel benthycwr pan fetha popeth arall."*

Mae hyn yn awgrymu bod polisi cyfradd llog Cyllid Cymru ac yn awr Banc yn dal yn bryder. Er hynny, mae hyn yn dibynnu yn y pen draw ar ba rôl a briodolwn i'r sefydliad. O bersbectif FSB Cymru, dylai Banc fod yn gweithredu i ryw raddau fel un aflonyddol mewn meysydd ble na fydd y benthycwyr prif ffrwd yn darparu cyllid ar hyn o bryd. Yn aml mae'r bwlch cyllid hwn ym mhen isaf y sbectrwm maint benthyciadau ble mae banciau'n llai awyddus i feithrin perthynas gyda chwmnïau sy'n ceisio benthyca symiau cymharol fach.

Rydym yn falch o weld cangen ymchwil newydd Banc yn ymddangos. Dylai hwn gael ei ddefnyddio i ddarparu dolen adborth i weithgareddau'r banc yn y dyfodol er mwyn ceisio lleddfu'r bwlch cyllid yng Nghymru.

**Mae cyfradd llog Banc yn dal i beri pryder i rai busnesau a dylid ei gadw dan arolwg i sicrhau bod y sefydliad yn gallu cyflawni'i rôl fel benthycwr i BBaChau yn gywir**

### Ffynonellau Cyngor

Er mai Busnes Cymru yw'r sefydliad allweddol ar gyfer cymorth i fusnesau yng Nghymru, mae yna ddigonedd o sefydliadau ategol ar gael yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Er mwyn deall effeithiolrwydd unrhyw ddarpariaeth gyhoeddus, mae'n bwysig deall proses meddwl cwmnïau sy'n ceisio cymorth busnes.

## GRAFF 6

## Os o gwbl, a ydych wedi ceisio cymorth neu gyngor busnes 2 flynedd ddiwethaf?

| | |
|---|---|
| Cyfrifwyr | 39% |
| Busnes Cymru | 19% |
| FSB Cymru | 16% |
| Cyfreithwyr/Twrneiod | 15% |
| Banc | 13% |
| Ymgynghorwr/cynghorwr busnes cyffredinol | 10% |
| Banc Datblygu Cymru | 2% |
| Awdurdodau Lleol | 10% |
| Nid wyf wedi ceisio cyngor busnes | 37% |

Fe wnaethom ofyn i gwmnïau nodi pwy aethant atynt pan oedd arnynt angen cymorth a chyngor busnes ar gyfer eu busnes. Mae **Graff 6** yn dangos mai cyfrifwyr yw'r sefydliad sydd yn y lle gorau yn y cyswllt hwn ar y cyfan. Yn amlwg mae llawer o gwmnïau'n teimlo rhyw fesur o ymddiriedaeth yn eu cyfrifydd. Mae hyn yn hollbwysig ar gyfer dyfodol cymorth i fusnesau ar ôl 2020. Dylai unrhyw ailgynllunio ar Busnes Cymru geisio asio cymaint ag sy'n bosibl â'r proffesiwn cyfrifeg, yn cynnwys o strategaethau marchnata drwodd i atgyfeiriadau ymarferol.

Mae'r arolwg hefyd yn dangos FSB Cymru fel sefydliad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cymorth a chyngor busnes (dim ond ychydig yn llai na Busnes Cymru). Er nad yw hyn yn syndod o ystyried mai aelodau FSB Cymru oedd yr aelodau, mae'n amlygu bod y dirwedd busnes ehangach yn bwysig i lwyddiant cwmnïau Cymru neu fel arall.

**Cyfrifwyr yw'r man galw cyntaf ar gyfer sgyrsiau cyngor a chymorth busnes i'r rhan fwyaf o gwmnïau. Mae Busnes Cymru ac FSB Cymru yn bwysig i'r rheini yn yr arolwg hefyd.**

**Mae angen i unrhyw gynllun cymorth i fusnesau yn y dyfodol weithio'n agos â'r dirwedd cymorth busnes bresennol os yw am fod yn llwyddiannus.**

### Mathau o Gyngor

Yn ogystal â gofyn pa sefydliadau sy'n fwyaf perthnasol o ran cymorth a chyngor, fe wnaethom ofyn hefyd pa feysydd o gyngor oedd eu hangen fwyaf.

## GRAFF 7
## Mathau o gymorth

| | |
|---|---|
| Cyngor ariannol | 42% |
| Help i dyfu | 41% |
| Cyngor marchnata | 39% |
| Help gyda rheoliadau | 39% |
| Cyngor cyfreithiol | 34% |
| Cyngor treth | 33% |
| Cyngor cyflogi | 33% |
| Mynediad at sgiliau | 27% |
| Help gyda gallu digidol | 23% |
| Innovation | 14% |
| Help gyda thendrau | 14% |
| Cymorth allforio | 7% |

Mae **Graff 7** yn amlygu bod angen amrediad eang o gymorth gan gwmnïau. Ym mhen uchaf y raddfa mae cyngor ariannol a help i dyfu eu busnes. O ystyried y bwriadau twf a amlygwyd yn gynharach a'r ddibyniaeth ar gyfrifwyr, nid yw'n syndod fod y ddau faes yma o'r pwys mwyaf i gyfeiriad busnesau yng Nghymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, ychydig yn is na'r ddau faes yma mae nifer o swyddogaethau cymorth arwyddocaol eraill megis cyngor marchnata, help gyda rheoliad, cyngor cyfreithiol, cyngor treth a chyngor cyflogi.

Mae darpariaeth bresennol Busnes Cymru yn gweithredu ar draws nifer o'r meysydd hyn ond fe all fod yn werth archwilio'r ddarpariaeth yng ngoleuni'r blaenoriaethau uchod er mwyn sicrhau bod y cyngor a ddarperir mor berthnasol ag sy'n bosibl i gwmnïau. Er bod cymorth ar gyfer tendro ac allforion yn is yn yr arolwg barn yma, fe all hyn gael ei egluro gan y nifer llai o gwmnïau sy'n ymhél â'r gweithgaredd hwn.


**Cyngor ariannol, cyngor i dyfu a nifer o feysydd rheoleiddiol sy'n cael eu gweld fel y mathau mwyaf hanfodol o gymorth busnes gan gwmnïau.**

### Dulliau Darparu

Mae Busnes Cymru a'r Banc Datblygu yn cael eu darparu ar hyn o bryd trwy gymysgedd o gynghorwyr, cynnwys ar-lein a gweithdai. Er mwyn profi'r dull darparu a pha un a oedd hyn yn cael ei groesawu gan gwmnïau, fe wnaethom ofyn pa ddull o ddarparu oedd orau ganddynt.

## GRAFF 8

## Gwir ddefnyddioldeb




Ran amlaf o lawer, fe welir mai mentora ac ymgynghori unigol yw'r hoff ddull o ddarparu gwasanaeth. Fel yr ydym wedi'i weld yn gynharach, mae ansawdd y gwasanaeth yn cael ei adlewyrchu'n gadarnhaol ac yn negyddol yn aml yn y berthynas rhwng y cynghorwr a'r busnes. O ystyried pa mor hoff ydyw ymhlith cwmnïau (a amlygwyd uchod) yn amlwg mae gan Busnes Cymru stoc o gynghorwyr sy'n gallu darparu gwasanaeth cryf. Rhaid cynnal hyn ar ôl 2020 mewn unrhyw drefniant a'i wella ble mae'n bosibl i sicrhau nad yw'r berthynas a luniwyd a'r ddealltwriaeth o faterion busnes yn mynd ar goll mewn unrhyw broses ailgontractio.

Y tu hwnt i hyn, mae cefnogaeth sylweddol hefyd i ohebiaeth ysgrifenedig trwy e-byst ac adroddiadau ond hefyd i ddarpariaeth yn seiliedig ar y we. Er enghraifft, mae system BOSS Busnes Cymru yn eithaf cynhwysfawr ac fe all gael ei weld fel dull defnyddiol i lawer o fusnesau.

O lai o werth mae pethau megis cyfryngau cymdeithasol a gweithgaredd yn yr ystafell ddosbarth. Yn amlwg teimlid nad oedd y rhain yn cymryd lle cymorth un i un.
Mae rhai o'r sylwadau a ddarparwyd yn rhoi cyd-destun ychwanegol, er enghraifft:


*"Pan roddir cyngor yn ysgrifenedig/ffurfiol mae'n mynd mor amddiffynnol a llawn cafeatau fel ei fod yn dda i ddim yn aml. Mae wyneb yn wyneb anffurfiol yn well fel arfer ac yn fwy onest."*

*"Fy newis i yw ymgynghoriadau wyneb yn wyneb gan ei bod yn haws egluro'r sefyllfa pan fydd ymgynghorydd yn gallu gweld sut mae pethau'n gweithredu mewn gwirionedd ac yn gallu gwneud argymhellion yn y fan a'r lle."*

*"Cymorth wyneb yn wyneb yw'r gorau gan eich bod yn gallu rhyngweithio â chynrychiolwyr eraill ac elwa ar eu profiad personol"*

Mae'r sylwadau uchod yn awgrymu bod ffurfioldeb yn broblem hefyd, gyda chynghorwyr yn llai tebygol o ddarparu cyngor defnyddiol os yw'n rhy ffurfiol, oherwydd y perygl i hynny gael ei weld yn ddiweddarach fel ansawdd gwael.

**Mae cyngor wyneb yn cael ei weld fel y dull gorau o ddarparu cymorth i fusnesau. Ar ôl 2020 mae'n hanfodol fod Busnes Cymru yn gallu cynnal ac ehangu ei rwydwaith cynghorwyr**



### Blaenoriaethau Cyllido yn y Dyfodol

Yn olaf, fe wnaethom ofyn i'r ymatebwyr awgrymu ym mha feysydd yr hoffent weld buddsoddiad petai cyllid yr UE yn parhau ar y lefelau presennol.

## TABL 2

Yn meddwl yn awr am y senario ble mae'r DU wedi gadael yr UE. Petai lefelau presennol cyllid yr UE yn cael eu hadnewyddu a'u cynnal, fel perchennog busnes bach, pa flaenoriaethau hoffech chi weld FSB Cymru yn ymgyrchu drostynt? Graddiwch eich blaenoriaethau os gwelwch yn dda.

| EITEM | Cyfanswm Sgôr 1 | Gradd Gyffredinol |
|---|---|---|
| GOSTYNGIAD ESTYNEDIG YN Y DRETH I FUSNESAU BACH | 532 | 1 |
| SEILWAITH DIGIDOL (SIGNAL FFONAU SYMUDOL A BAND EANG SEFYDLOG) | 493 | 2 |
| SGILIAU A HYFFORDDIANT | 437 | 3 |
| CYMORTH I FUSNESAU (RHAGLENNI MENTORA A HELP AR GYFER BUSNESAU SY'N CYCHWYN A BUSNESAU SY'N GOBEITHIO TYFU) | 397 | 4 |
| SEILWAITH TRAFNIDIAETH (FFYRDD A RHEILFFYRDD) | 377 | 5 |
| MYNEDIAD AT GYLLID (MEGIS BENTHYCIADAU NEU FUDDSODDIADAU ECWITI) | 368 | 6 |

Defnyddiwyd y graddfeydd i greu sgôr ar gyfer pob maes polisi. Roedd hyn yn dangos mai gostyngiad treth i fusnesau bach oedd y flaenoriaeth allweddol ar gyfer cyllid yr UE, gyda gwelliannau i seilwaith digidol a symudol yn dilyn. Islaw hyn sgiliau a hyfforddiant a chymorth i fusnesau oedd y ddwy flaenoriaeth ddewisol nesaf, gyda seilwaith trafnidiaeth a mynediad at gyllid yn dilyn. Cafodd pob maes gefnogaeth eang ac mae'n hanfodol fod unrhyw beth a ddaw yn lle cyllid yr UE yn gallu canolbwyntio ar bob un o'r 6 maes a amlygwyd uchod.

Yn hynod, gostyngiad treth yw'r unig faes nad oes darpariaeth ar ei gyfer ar hyn o bryd yn y system gyllido bresennol, felly fe all fod rhinwedd mewn archwilio cymhellion treth wedi'u targedu mewn unrhyw raglenni UE yn y dyfodol. Er enghraifft peidio â chodi ardrethi busnes am gyfnod o 12 mis ble mae gwelliannau wedi'u gwneud i adeiladau fel yr awgrymwyd gan Arolwg Barclay yn yr Alban.[23]

**Estyn gostyngiadau treth i fusnesau bach yw'r brif flaenoriaeth ar gyfer cyllid yn y dyfodol, ynghyd â gwella seilwaith digidol, buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant a chymorth i fusnesau.**

### Cymorth i Fusnesau Ar Ôl 2020: Argymhellion ar gyfer Newid

Ar ôl archwilio'r pwysau ariannol a'r pwysau polisi ar y gyfundrefn cymorth i fusnesau, pa un a yw'n werth am arian a beth yr hoffai cwmnïau ei weld gan y gwasanaeth yn y dyfodol, rydym yn troi'n awr at argymhellion ar gyfer gweithredu gan lywodraeth Cymru a llywodraeth y DU.

### Amnewid Cyllid Ewropeaidd

Ar y cyfan roedd cyllid Ewropeaidd yn cael ei weld fel grym cadarnhaol yn economi Cymru gan ein haelodau pan wnaed arolwg ohonynt. Roedd ar yr aelodau eisiau gweld y cyllid presennol yn cael ei ddiogelu. Er gwaethaf hyn, rydym yn glir y gellir gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae cyllid yn cael ei wario yn y dyfodol i sicrhau bod busnesau ar draws Cymru yn gallu tyfu'n gynaliadwy a pharhau i fod â'u gwreiddiau yn eu cymunedau lleol. Yn wir, adlewyrchwyd hyn yn ein hadroddiad ledled y DU ar gyllid rhanbarthol ar ôl Brexit Reformed Business Funding: What Small Firms Want from Brexit.[24]

Felly rydym yn galw am y canlynol:

- Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod Cymru'n derbyn yr un faint o gyllid ag oedd ar gael trwy gyllid yr UE, unwaith y mae'r maes polisi hwn wedi'i ailwladoli.
- Wrth gynllunio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae'n hanfodol bwysig fod cyllid yn gallu cyfannu'r seilwaith cymorth i fusnesau presennol yng Nghymru trwy Busnes Cymru a'r Banc Datblygu.
- Mae datblygu economaidd yn swyddogaeth ddatganoledig ar hyn o bryd. Rydym yn credu felly y dylai unrhyw beth a ddaw yn ei le trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin barhau i roi rheolaeth i Lywodraeth Cymru dros flaenoriaethau cyllido i sicrhau cysondeb â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

### Adeiladu ar asedau economaidd Cymru

Er bod ansicrwydd ynghylch beth ddaw yn lle cyllid Ewropeaidd yn creu bygythiad arwyddocaol i wasanaethau cymorth i fusnesau, mae gan Lywodraeth Cymru ddewisiadau arwyddocoal i'w gwneud o hyd ynghylch beth y mae'n ei flaenoriaethu o fewn ei chyllidebau ei hun. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod cymorth i fusnesau trwy Busnes Cymru a'r Banc Datblygu yn cynnig gwerth am arian da mewn perthynas â swyddi a grëwyd mewn cymunedau ar draws Cymru. Tra bydd Llywodraeth Cymru yn deg yn ceisio denu buddsoddiad angori sylweddol i Gymru, credwn y dylai'r cynllun gweithredu economaidd ganolbwyntio mwy ar ddatblygu cadwyni cyflenwi cynhenid ac amrywiaeth yn yr economi leol.

Felly rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- Flaenoriaethu cymorth i BBaChau wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi trwy ddiogelu gwasanaethau cymorth i fusnesau ar ôl 2020; cydnabod bod cymorth i fusnesau yn cynnig gwerth am arian da o gymharu â buddsoddiadau eraill.

[23] Scottish Government. 2017. Report of the Barclay Review of Non-Domestic Rates [Ar-lein]. Ar gael ar: http://www.gov.scot/Publications/2017/08/3435/5

[24] FSB. 2017. Reformed Business Funding: What Small Firms Want from Brexit [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/reformed-business-funding.pdf

- Sicrhau bod datblygu cadwyni cyflenwi Cymreig yn ofyniad craidd yn y contract economaidd, gan olygu bod a wnelo penderfyniadau mewnfuddsoddi â mwy na niferoedd swyddi.
- Egluro a fydd Cronfa Dyfodol yr Economi yn cymryd lle'r Cynllun Cyllid Busnes a sicrhau bod y gronfa newydd yn agored a thryloyw yn ei chyllideb, meini prawf buddsoddi a phroses gwneud cais.
- Sicrhau bod Cronfa Dyfodol yr Economi yn agored i geisiadau gan bob cwmni ar yr un telerau neu delerau tebyg, gan eu graddio i gwrdd â'u maint.

## Busnes Cymru a Banc

Does dim amheuaeth fod gwasanaeth Busnes Cymru wedi dod ymhell ers cyflwyno'r syniad gwreiddiol yng Ngrŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficrofusnesau 2012. Mae corddiad mentrau wedi bod yn broblem i bolisïau economaidd Llywodraeth Cymru ers tro byd. Rhaid inni sicrhau nad yw Busnes Cymru yn dioddef yr un ffawd er gwaethaf y gwasanaethau polisi a gwasanaethau ariannol amlwg.

Er mwyn cynnal a datblygu gwasanaeth Busnes Cymru, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru a Busnes Cymru i:

- Archwilio amrywiaeth ehangach o faterion na chreu swyddi wrth ddiffinio unrhyw gontract ar gyfer Busnes Cymru ar ôl 2020. Gallai hyn alinio â dyheadau'r Contract Economaidd a chanolbwyntio ar gynaladwyedd a chynhyrchiant cwmnïau ymhlith pethau eraill, gan symud oddi wrth dargedau swyddi fel y sbardun ar gyfer atebolrwydd cynghorwyr.
- Mae angen i rwydwaith cynghorwyr Busnes Cymru gael ei gynnal a'i ehangu ar ôl 2020 er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae busnesau'n rhoi gwerth ar ymgysylltu wyneb yn wyneb ac felly dylid blaenoriaethu'r gweithgaredd hwn.
- Sicrhau bod darparu cymorth i fusnesau a gyllidir yn gyhoeddus yn gallu asio â'r peirianweithiau cymorth presennol megis cyfrifwyr a sefydliadau busnes. Yn aml mae'r rhain yn llwybrau mwy amlwg at gyngor na Busnes Cymru.

Mewn perthynas â Banc Datblygu Cymru, rydym yn awgrymu'r canlynol:

- Cadw polisi cyfraddau llog dan arolwg a sicrhau ble mae'n bosibl fod Banc yn gallu bod yn aflonyddol mewn meysydd ble mae diffyg amlwg yn y farchnad.
- Buddsoddi yn y brand dros y cyfnod hir. Bu'r gweithgaredd codi ymwybyddiaeth dechreuol yn sylweddol ond rhaid ei gynnal i sicrhau bod pobl yn adnabod y brand.

## Blaenoriaethau polisi yn y dyfodol

Mae cael gwared ar reolau Ewropeaidd yn ymwneud â pholisi rhanbarthol yn rhoi cyfle i ailfeddwl. Rhaid inni sicrhau bod unrhyw gyllid yn cael ei ddefnyddio i fantoli economi'r DU a mynd i'r afael â diffygion economaidd strwythurol hirsefydlog Cymru. Mewn rhai meysydd, mae angen inni barhau i wneud yr hyn sydd wedi gweithio yn y gorffennol. Mewn eraill, dylem ystyried opsiynau polisi newydd.

Fel y cyfryw, credwn y dylai'r hyn a ddaw yn lle cyllid Ewropeaidd:

- Barhau i ganolbwyntio ar faterion economaidd craidd megis seilwaith (yn ddigidol ac yn ffisegol), sgiliau a hyfforddiant a mynediad at gyllid.
- Cael ei neilltuo ar gyfer datblygu economaidd, fel sy'n digwydd gyda'r cronfeydd strwythurol presennol. Ni ddylai cyllid amnewid fynd ar goll ym mhroses cyllideb ehangach Llywodraeth Cymru.
- Ystyried ysgogiadau polisi newydd megis gostyngiadau yn y dreth wedi'u targedu mewn ardaloedd i annog buddsoddiad megis y cynnig yn yr Alban i gael oedi o 12 mis ar ardrethi yn crynhoi i fuddsoddiad mewn adeiladau, offer a pheiriannau newydd.

# CASGLIAD

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu Cymru â thraddodiad cryf o gefnogi BBaChau trwy wasanaethau cymorth i fusnesau. Bydd y system hon yn dod fwyfwy dan fygythiad wrth i'r heriau o gael rhywbeth yn lle cyllid Ewropeaidd ac ymagwedd newydd at ddatblygu economaidd gael eu rhoi ar waith.

Er hyn oll, o ystyried buddion yr ymyriadau hyn o ran twf swyddi, twf stoc busnes ac effeithiau economaidd ehangach dylid rhoi blaenoriaeth i gael adnoddau priodol ar gyfer pensaernïaeth a chronfeydd cymorth i fusnesau wrth ystyried y blaenoriaethau ar gyfer unrhyw gyllid yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi paham y mae parhau ac ehangu'r gwasanaethau cymorth i fusnesau sydd ar gael yng Nghymru yn fforddiadwy ac yn dyngedfennol o werthfawr i Gymru, ei heconomi a'i phobl. Mae dewisiadau anodd i'w gwneud mewn llawer maes polisi ond rydym yn hyderus y gallai sector BBaCh cryfach, gyda'r dull iawn o weithredu, fod yn ganlyniad y penderfyniadau hyn.

# ATODIAD

Cyfeirnodau ar gyfer dadansoddiad cost y swydd:

**Busnes Cymru** – Llywodraeth Cymru. 2015. Gweinidog yn cyhoeddi contractau gwerth £50m ar gyfer ehangu gwasanaeth Busnes Cymru [Ar-lein]. Ar gael ar: http://gov.wales/newsroom/businessandeconomy/2015/151207-business-wales/?lang=en

**Cynllun Cyllid Busnes** – clustnodwyd trwy Ganfyddwr Busnes Busnes Cymru. Busnes Cymru. 2018. Canfod Cyllid [Ar-lein]. Ar gael ar: https://businesswales.gov.wales/businessfinance/finding-finance

**Banc Datblygu Cymru** – Llywodraeth Cymru. 2016. Banc Datblygu i agor y flwyddyn nesaf [Ar-lein]. Ar gael ar: http://gov.wales/newsroom/businessandeconomy/2016/161213-development-bank-on-course-to-open-next-year/?lang=en

**Ardaloedd Menter** – Llywodraeth Cymru. 2018. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Papur Tystiolaeth ysgrifenedig ar Ardaloedd Menter gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth [Ar-lein]. Ar gael ar: http://senedd.assembly.wales/documents/s72138/EIS5-05-18p8%20Cabinet%20Secretary%20for%20Economy%20and%20Transport.pdf

**Aston Martin** – whatdotheyknow.com. 2017. Freedom of Information Request. [Online]. Available at: https://www.whatdotheyknow.com/request/318128/response/986583/attach/html/3/ATISN%2010230%20T%20Gallard%20Aston%20Martin%20funding%20ICO%20Decision%20Notice%20reply.pdf.html

**Aldi** – Llywodraeth Cymru. Ebrill 2017. Canolfan Ddosbarthu ranbarthol newydd Aldi yng Nghymru yn agor gan greu 422 o swyddi newydd – gyda 400 o swyddi eraill yn yr arfaeth ledled y De. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gov.wales/newsroom/businessandeconomy/2017/170403-aldis-new-welsh-regional-distribution-centre-opens-having-created-422-new-jobs/?lang=en

**TUI** – Llywodraeth Cymru. 2018. TUI yn creu 175 o swyddi yn Abertawe gyda chymorth Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gov.wales/newsroom/businessandeconomy/2018/180117-tui-to-create-175-jobs-in-swansea-with-wg-assistance/?lang=en

**Capgemini** – Insider Media Ltd. 2015. CAPGEMINI TO RECRUIT 100 FOR NEW WALES BASE [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.insidermedia.com/insider/wales/148886-capgemini-create-100-jobs-south-wales?utm_source=wales_newsletter&utm_medium=deals_article&utm_campaign=wales_news_tracker

**Deloitte** – WalesOnline. 2015. First Minister to visit Deloitte's Cardiff operation today to hear of its 700 job expansion plans in the capital.[Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.walesonline.co.uk/business/business-news/first-minister-vist-deloitte-hear-8393397

FSB Wales
1 Cleeve House, Lambourne Crescent
Caerdydd, CF14 5GP

T/Ff: 02920 747406
M/S: 07917 628977
www.fsb.org.uk/wales
Twitter: @FSB_Wales